
PAPUR Y FRO
Awst 2012

# Graffiti

**Beth ydych chi'n ei feddwl o graffiti?**

Ydych chi'n meddwl ei fod yn gelfyddyd sy'n gallu harddu hen waliau yn eich ardal?
**neu**
Ydych chi o'r farn mai fandaliaeth bur yw tynnu lluniau ac ysgrifennu geiriau ar waliau yn y gymuned?

Aeth un o'n gohebwyr i holi pobl ar y stryd a dyma'i ganlyniadau:




Byddech chi'n disgwyl y byddai'r genhedlaeth hŷn yn meddwl bod graffiti'n hyll ac yn flêr, ond rhaid bod gan bobl hŷn yr ardal hon agwedd fodern iawn tuag at y byd. "Mae'n braf gweld lliw yn cael ei roi ar waliau budr yr ardal," oedd ymateb un person 80 oed.

Un o'r arwyr graffiti cynharaf oedd TAKI 183. Demetrius oedd ei enw iawn - neu a defnyddio ffurf Roegaidd ei enw, Demetaki. O'r enw hwn y cymerodd ei *tag* TAKI 183. Pam 183? Wel, roedd e'n byw yn Stryd 183 yn Washington Heights, Efrog Newydd. Roedd e'n gweithio fel negesydd yn y ddinas. Wrth iddo fynd o stryd i stryd neu o orsaf i orsaf, byddai'n ysgrifennu ei enw ar y waliau neu yn y gorsafoedd. Sylwodd un gohebydd o The *New York Times* ar hyn ac, ar 12 Gorffennaf 1971, ysgrifennodd erthygl amdano ar y dudalen flaen. Roedd TAKI 183 yn arwr - roedd e ar dudalen flaen papur newydd. Roedd graffiti wedi cael sylw'r wasg!

Yna, dechreuodd pobl ifainc eraill ysgrifennu eu henwau nhw ar waliau'r ddinas ac, o dipyn i beth, datblygodd y geiriau'n lluniau lliwgar. Yn ôl rhai pobl, petai TAKI 183 heb ysgrifennu ei enw ar y waliau a phetai'r gohebydd heb ysgrifennu amdano, efallai na fyddai pobl ifanc yn gwneud graffiti heddiw. Pwy a ŵyr?

Beth bynnag, beth yw'ch barn chi am graffiti yn yr ardal - Celfyddyd neu Fandaliaeth? Rydyn ni wedi dechrau fforwm ar wefan y papur bro a hoffen ni i chi gyfrannu eich barn yno. Ewch i www.papurbroyfro/graffiti

